

DYDDIADUR GWEDDI LINGUAE CHRISTI



Liciwch ein tudalen [Facebook](#) a dilynwch ni ar [Instagram](#) a [Twitter](#)
ar gyfer ein diweddariadau gweddi beunyddiol.

Mehefin 2019

1. Sat – Cymraeg 1 – Os gwelwch yn dda, gweddiwch dros grŵp mawr o fyfyrwyr sy'n cyrraedd heddiw am eu prosiectau haf.
2. Sun – Euskara (Basgeg 1) – Gweddiwch dros ein cymuned fydd iaith Fasgeg sy ar hyn o bryd yn cyfarfod unaith y mis yn Usurbil. (Dydd Sul yr 2il o Fehefin byddwn yn cyfarfod yng nghanolfan diwylliannol y pentref.)
3. Mon – Cymraeg 3 – Gweddiwch y bydd Duw yn defnyddio'r amser hwn mewn hyfforddiant i'm arfogi, i'm herio, ac i ddatgelu ei hun i mi.
4. Maw – Cymraeg 1 – Os gwelwch yn dda, gweddiwch drostom a'r myfyrwyr sy yma yn ystod yr wythnos hyfforddiant ar gyfer y prosiectau haf.
5. Mer – Cymraeg 2 – Gweddiwch am iechyd da yn ystod yr wythnosau nesaf ar gyfer ein teulu.
6. Iau – Gaeilgeorí (Gwyddeleg 1) – Mae hanner cyntaf mis Mehefin yn canolbwyntio ar hyfforddiant diwylliannol a datblygiad ysbrydol yn ein rhaglen hyfforddiant cenhadol. Gweddiwch dros bawb sy'n astudio gyda ni i fod yn agored i syniadau newydd a newid y galon.
7. Gwener – Linguae Christi – Gweddiwch y gweddi Luc 10:2 gyda ni: gofynnwch i Arglwydd y cynhaeaf anfon mwy o weithwyr i'w feysydd.
8. Sat – Euskara (Basgeg 1) – Os gwelwch yn dda gweddiwch dros ein tîm o fyfyrwyr fydd yn cyrraedd Gwlad y Basg yfory. Gweddiwch y bydd Duw yn eu bendithio ac yn eu defnyddio yn y wlad 'ma.

9. Sun – Cymraeg 3 – Gweddïwch dros y tîm wrth iddynt hyfforddi, cydlynu a hwyluso prosiectau'r haf.
10. Mon – Cymraeg 2 – Gweddïwch dros ein cydweithwyr a ffrindiau i gyd ar draws Ewrop, pob un sy'n gweithio fel y gall mwy o bobl yn adnabod Iesu.
11. Maw – Cymraeg 1 – Os gwelwch yn dda, gweddïwch dros dîm s'yn cyrraedd heddiw a fydd yn cymryd rhan yn ein menter gweddi cyntaf ar gyfer yr haf yng Ngogledd Orllewin Cymru.
12. Mer – Euskara (Basgeg 1) – Gweddïwch dros ein hiechyd corfforol, emosiynol ac ysbrydol yn ogystal â'n cefnogaeth ariannol.
13. Iau – Gaeilgeorí (Gwyddeleg 1) – Gweddïwch y bydd Duw yn cyflenwi anghenion y nifer cynyddol o weithwyr yn Linguae Christi sy'n codi ein cymorth eu hunain i wasanaethu yn Ewrop.
14. Gwener – Cymraeg 1 – Os gwelwch yn dda, gweddïwch dros ymddiriedolwyr Linguae Christi yn ystod ein cyfarfod heddiw.
15. Sat – Linguae Christi – Gweddïwch yn benodol ar gyfer gweithwyr barod i ddod i weithio gyda ni am flwyddyn gyda thimau tymor byr, ein sefyllfa ariannol, i ddatblygu strategaeth cyfryngau ac fel artist graffig.
16. Sun – Cymraeg 2 – Gweddïwch dros ein cydweithwyr yr haf hwn–y byddwn ni'n cyfathrebu yn dda, annog ein gilydd a chefnogi'n gilydd.
17. Mon – Cymraeg 3 – Gweddïwch i mi yn ogystal â'r bobl eraill mewn hyfforddiant wrth i ni fyw yn y gymuned yma. Gweddïwch y byddem yn annog ein gilydd ac yn dysgu oddi wrth ein gilydd.
18. Maw – Euskara (Basgeg 1) – Gweddïwch dros dîm Kale Argia.
19. Mer – Linguae Christi – Gweddïwch wrth i ni ddatblygu cysylltiadau ar gyfer rhwydwaith yn Ewrop o bobl sy'n hyrwyddo'r Efengyl ymhlith cymunedau ieithoedd lleiafrifol a brodorol.
20. Iau – Gaeilgeorí (Gwyddeleg 1) – Yn yr ail hanner o Fehefin byddwn yn canolbwyntio ar sut i ddysgu ail-iaith yn ein rhaglen hyfforddiant cenhadol. Gweddïwch dros y rhai sydd yma i ennill yr hyder a'r offer sydd eu hangen i ddysgu iaith yn dda unwaith y byddant yn cyrraedd yn eu maes nhw.
21. Gwener – Cymraeg 2 – Gweddïwch dros sgysiau wedi'i hoelio ar yr Efengyl a chwilfrydedd sanctaidd ym misoedd yr haf yma.
22. Sat – Euskara (Basgeg 1) – Gweddïwch dros yr arolygion am fydd a diwylliant y Basgwyr a fydd y tîm o fyfyrwyr yn eu cynnal mewn pentrefi gwahanol yn Wlad y Basg. Gweddïwch y cawn ni sgysiau da am yr Efengyl.

23. Sun – Linguae Christi – Gweddïwch y bydd Duw yn galw Cristnogion sy'n siarad Sbaeneg i rannu'r Efengyl ymysg y grwpiau iaith lleiafrifol Sbaen.
24. Mon – Cymraeg 2 – Gweddïwch am ffafr gydag arweinwyr lleol. Gweddïwch y byddan yn gweld ein calon dros bobl a bod cariad yn ein hysgogi ni.
25. Maw – Gaeilgeorí (Gwyddeleg 1) – Gweddïwch y bydd gweithwyr Linguae Christiyn agos at yr Arglwydd, ac yn cael amser i orffwyso, adfywio ac i dreulio amser gyda Duw yn ystod y mis hwn o wasanaeth prysur.
26. Mer – Cymraeg 3 – Gweddïwch y bydda i'n dod o hyd i amser tawel a gorffwys i dreulio ar fy mhen fy hun gyda'r Arglwydd yng nghanol y mis prysur, llawn o amser efo pobl eraill.
27. Iau – Cymraeg 1 – Os gwelwch yn dda, gweddïwch dros ein ail dîm sy'n cyrraedd heddiw a fydd yn cymryd rhan mewn menter gweddi arall ar gyfer yr haf yng Ngogledd Orllewin Cymru.
28. Gwener – Euskara (Basgeg 1) – Gweddïwch dros ddatblygad a chynydd llawn ein mab.
29. Sat – Cymraeg 2 – Gweddïwch dros y tlawd yn ein cymunedau—y gallwn eu gwasanaethu ac yn eu caru yn well.
30. Sun – Gaeilgeorí (Gwyddeleg 1) – Gweddïwch dros y llu o ffrindiau a wnaethom tra dramor nad ydynt yn gredinwyr eto. Ymunwch â ni i weddio bod holl hadau'r Efengyl wedi'u plannu yn cael eu dyfrio er mwyn tyfu.